



## Joint Council for Qualifications

### Arholiadau TAG - hen fanylebau TAG UG ac Uwch unedol

### Gweithdrefnau cofrestru, agregu ac ardystio

Mae'r ddogfen hon mewn grym o 1 Medi 2017 nes y cyfle olaf i ailsefyll olaf ar gyfer yr hen fanylebau TAG UG ac Uwch unedol yng Nghymru a Lloegr

† Mae'n **rhaid** i ganolfannau CCEA astudio'r ddogfen *Rheolau Ailsefyll ac Agregu ar gyfer ymgeiswyr sy'n cychwyn cyrsiau ym mis Medi 2013 neu ar ôl hynny*, a gyhoeddwyd gan CCEA ym mis Ebrill 2015.

Cynhyrchwyd ar ran:



## Cynnwys

|                                                                                                                                                                                                  |   |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|
| Cyflwyniad                                                                                                                                                                                       | 2 |
| 1. Cofrestru                                                                                                                                                                                     | 3 |
| 2. Derbyn canlyniadau                                                                                                                                                                            | 4 |
| 3. Ailsefyll                                                                                                                                                                                     | 5 |
| 4. Cyfnewid dyfarniadau – yr opsiynau a'r camau gweithredu                                                                                                                                       | 6 |
| 5. Cyfnewid neu beidio â chyfnewid?8                                                                                                                                                             |   |
| 6. Adolygu'r marcio, adolygu'r safoni a mynediad at sgriptiau                                                                                                                                    | 9 |
| 7. Trefniadau ar gyfer myfyrwyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy gwrs TAG Safon Uwch (ar ôl cwblhau a derbyn ardystiad ar gyfer dyfarniad TAG UG) 10 |   |

## Atodiadau

|                                                    |    |
|----------------------------------------------------|----|
| 1. Atodiad 1 - Graddfeydd marciau unffurf          | 11 |
| 2. Atodiad 2 - Enghraifft o agregu ac ardystio TAG | 13 |

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif ofynion gweinyddol ar gyfer yr **hen gymwysterau TAG (Tystysgrif Addysg Gyffredinol) unedol gan gynnwys TAG mewn pynciau cymhwysol.**

**Nid yw'n berthnasol i'r gofynion gweinyddol ar gyfer y cymwysterau TAG UG ac Uwch Ilinol newydd.**

**Dylai canolfannau yn Lloegr nodi bod manylebau TAG UG ac Uwch unedol yn cael eu gwaredu'n raddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae manylebau UG ac Uwch yn cael eu hadolygu a'u diweddar, ac ar yr un adeg yn cael eu symud o asesiad modiwlaid i asesiad llinol.**

Mae'r ddogfen hon wedi'i dylunio i'w defnyddio gan y rhai hynny sy'n gyfrifol mewn ysgolion a cholegau (canolfannau) am weinyddu arholiadau TAG. Y nod yw egluro a rhoi sylwadau ar y prif weithgareddau a'r telerau sy'n rhan o'r broses.

Mewn perthynas â **phynciau cymhwysol TAG**, fel arfer bydd ymgeiswyr yn sefyll tair uned ar gyfer Dyfarniad Sengl TAG Uwch Gyfrannol Cymhwysol, sydd yn gymhwyster ar ei ben ei hun ac yn gallu cael ei ddyfarnu ar ei ben ei hun. Gallant ddewis sefyll tair uned bellach i gyflawni'r Dyfarniad Sengl TAG Safon Uwch llawn.

Mae dyfarniad dwyradd hefyd ar gael. Mae cymhwyster dyfarniad dwyradd UG yn cynnwys chwe uned ac mae cymhwyster Safon Uwch dwyradd yn cynnwys deuddeg uned. Hefyd mae dyfarniad naw uned, TAG Uwch gyda TAG Uwch Gyfrannol (Ychwanegol).

Mewn **hen fanylebau TAG unedol** eraill, fel arfer bydd ymgeiswyr yn sefyll dwy uned ar gyfer cymhwyster TAG Uwch Gyfrannol (UG), sydd yn gymhwyster ar ei ben ei hun ac yn gallu cael ei ddyfarnu ar ei ben ei hun. Gallant ddewis sefyll dwy uned bellach i gyflawni'r cymhwyster TAG Safon Uwch llawn.

Eithriadau i'r rheol hon yw:

- Mathemateg;
- Mathemateg Bellach;
- Mathemateg Bur;
- Ystadegau;
- Electroneg;
- Daeareg; a
- Cherddoriaeth (ac eithrio CCEA).

Mae'r manylebau uchod yn cynnwys cymwysterau UG tair uned a Safon Uwch chwe uned.

Yn ychwanegol at hyn, mae ieithoedd sy'n cael eu dysgu'n llai aml (Arabeg, Bengali, Hebraeg Beiblaidd, Iseldireg, Gujarati, Japanaeg, Groeg Modern, Hebraeg Modern, Panjabi, Persieg, Pwyleg, Portiwgaleg a Thwrceg) yn cynnwys cymwysterau UG un uned a Safon Uwch dwy uned.

Mae Tsieinëeg yn gymhwyster tair uned (dwy uned UG ac un uned U2) ac mae'n cario 200 o farciau unffurf.

## 1. Cofrestru

**Mater allweddol:**Gall cofrestriadau arwain naill ai at ganlyniadau uned neu ddyfarniadau cymhwyster.

### (i) Cofrestriadau ar gyfer unedau unigol

**Mae angen cofrestru ar gyfer pob uned mae ymgeisydd yn bwriadu ei sefyll mewn unrhyw gyfres arholiadau dan sylw.** Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r ymgeisydd gael y papur(au) arholiad cywir a chael y canlyniad(au) cywir ar ddiwedd y broses. Mae'n **rhaid** cofrestru erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres dan sylw.

Mae'n **rhaid** i ganolfan yr ymgeisydd wneud cofrestriadau ar gyfer yr uned(au) mae'r ymgeisydd wedi paratoi ar eu cyfer. Gellir sefyll unedau mewn unrhyw drefn.

Pan fydd cofrestriadau'n cael eu gwneud ar gyfer unedau, nid oes angen i'r ymgeisydd ddatgan lefel na theitl y cymhwyster y mae ef/hi yn bwriadu ei gyflawni. Mae rhai unedau'n gyffredin i fwy nag un manyleb, e.e. Mathemateg Bellach a Mathemateg.

### (ii) Cofrestriadau ar gyfer dyfarniadau cymhwyster ('cyfnewid' neu agregu)

Unwaith mae'r ymgeisydd wedi ennill neu wedi cofrestru ar gyfer y set benodol o unedau, yna gellir cofrestru ar gyfer dyfarniad y cymhwyster. Yr enw ar hyn yw 'cyfnewid' neu agregu. Dyma'r arwydd i'w corff dyfarnu fod yr ymgeisydd yn dymuno cyflawni'r cymhwyster a derbyn ardystiad.

**Nid yw cyfnewid neu agregu yn awtomatig. Dim ond pan fydd ymgeisydd wedi cael ei gofrestru, neu pan fydd wedi ennill y set briodol o unedau ar gyfer ei gymhwyster o ddewis, y gellir gwneud cais amdano. Bydd y corff dyfarnu'n cymryd hyn fel ei gymhwyster o ddewis.**

**Nid yw** gwneud cais i gyfnewid neu agregu yn cyfateb i gofrestru ar gyfer uned benodol neu gyfuniad o unedau. **Mae'n rhaid gwneud cofrestriadau penodol ar gyfer unrhyw unedau y bydd yr ymgeisydd yn dymuno eu sefyll yn y gyfres arholiadau dan sylw, gyda chofrestriad ar wahân ar gyfer y cymhwyster cyffredinol.**

Fel arfer bydd cais yn cael ei wneud ar gyfer cyfnewid neu agregu ar yr un pryd ag y bydd cofrestriadau'n cael eu gwneud ar gyfer unedau terfynol yr ymgeisydd. Gellir hefyd gwneud cais amdano yn y cyfnod yn syth wedi derbyn canlyniadau uned.

Gall ymgeiswyr gyda digon o ganlyniadau uned i gael dyfarniad, ond sydd heb gyfnewid neu agregu, wneud hynny'n adolygol trwy eu canolfan.

Rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu perthnasol cyn y terfyn amser a gyhoeddir ar gyfer y gyfres dan sylw. Bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei ganllawiau gweinyddol ei hun, a fydd yn rhoi manylion y dull o gyflwyno ceisiadau ac unrhyw dâl am y gwasanaeth hwn.

**D.S: Ar gyfer hen gymwysterau TAG UG unedol,** mae'r Adran Addysg (DfE) ar hyn o bryd yn disgwyl i'r holl ysgolion a cholegau a gynhelir (gan gynnwys academiâu ac ysgolion rhad ac am ddim) yn Lloegr i 'gyfnewid' neu agregu unedau UG ymgeiswyr ar ddiwedd cwrs blwyddyn UG (neu hanner ffordd drwy gwrs dwy flynedd Safon Uwch).

Mae rhestr o ddyddiadau allweddol arholiadau TAG i'w gweld yma:  
<http://www.jcq.org.uk/exams-office/key-dates-and-timetables>

## 2. Derbyn canlyniadau

**Mater allweddol:** Mae canlyniadau uned yn cael eu cofnodi fel marciau unffurf a graddau uned; mae canlyniadau cymwysterau'n cael eu cofnodi fel graddau.

Ar gyfer yr holl unedau TAG (gan gynnwys unedau TAG Cymhwysol), bydd ffiniau graddau'n cael eu pennu mewn cyfarfodydd dyfarnu o ran y marciau craidd ar gyfer yr uned. Yna mae'r ffiniau graddau marc craidd hyn yn cael eu cyfieithu ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda ffiniau gradd penodol.

Mae canlyniadau uned ymgeisydd yn cael eu cofnodi fel marciau unffurf. Fel arfer mae unedau TAG Cymhwysol yn cael eu cofnodi ar raddfa 100 pwynt. Mae'r marc unffurf mwyaf ar gyfer unedau TAG eraill yn dibynnu ar bwysoliad yr uned ac fel arfer mae'n amrywio rhwng 60 a 140.

Mae'r marc unffurf yn caniatáu cyfrifo gradd gyfatebol ar gyfer pob uned, a allai hefyd gael ei ddarparu gan gorff dyfarnu. Mae graddfeydd marciau unffurf wedi'u nodi yn **Atodiad 1, tudalen 11**.

Bydd cyrff dyfarnu yn darparu'r canlynol, o leiaf, ar gyfer pob uned:

- teitl yr uned;
- marc GMU yr ymgeisydd ar gyfer yr uned; **ac**
- y gyfres arholiadau pan gyflawnwyd yr uned.

Bydd gwybodaeth sy'n galluogi hafalu marciau GMU i raddau TAG hefyd yn cael ei darparu.

Os yw ymgeisydd wedi gwneud cais i gyfnwid neu agregu, bydd canlyniad cymhwyster hefyd yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad yn cael ei gofnodi fel gradd sy'n cael ei gyfrifo drwy gyfrifo'r marciau unffurf gorau ar gyfer pob uned angenrheidiol.

**Bydd ymgeiswyr yn cael Gradd A\* os byddant yn ennill Gradd A am y Safon Uwch llawn** (h.y. o leiaf 160, 320 neu 480 o farciau unffurf yn y cymwysterau Safon Uwch 2, 4 neu 6 uned yn y drefn honno) **a 90 % neu fwy o'r marciau unffurf sydd ar gael am eu hunedau U2** (h.y. 90, 180 neu 270 o farciau unffurf am yr unedau U2 yn y cymwysterau Safon Uwch 2, 4 neu 6 uned yn y drefn honno). Mae rheolau arbennig yn berthnasol i fanylebau Mathemateg a TAG Cymhwysol - gweler **Atodiad 1, tudalen 11**.

Bydd y tystysgrifau'n dangos y canlynol ar gyfer pob pwnc, o leiaf:

- teitl y pwnc;
- y cymhwyster;
- gradd y pwnc; **ac**
- y gyfres arholiadau pan wnaed y dyfarniad.

### 3. Ailsefyll

**Mater allweddol:** Mae'n bosibl ailsefyll unrhyw uned p'un a yw'r cymhwyster wedi'i gyfnwio ai peidio, yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol. Dylai canolfannau ofyn am arweiniad ar gyfleoedd asesu yn y dyfodol gan y corff dyfarnu perthnasol.

Ow yw ymgeisydd wedi hawlio ardystiad UG, gallai ef/hi ailsefyll un neu fwy o unedau UG yn ogystal â'r unedau U2 cyn cyfnwio am ddyfarniad Safon Uwch.

Mae'n rhaid i ganolfannau CCEA astudio'r ddogfen *Rheolau Ailsefyll ac Agregu ar gyfer ymgeiswyr sy'n cychwyn cyrsiau ym mis Medi 2013 neu ar ôl hynny*, a gyhoeddwyd gan CCEAF ym mis Ebrill 2015.

**Mae Ffigwr 1 yn dangos senario posibl ar gyfer ymgeisydd a ddechreuodd hen gwrs TAG unedol ym mis Medi 2016.**

| Mehefin 2017               | Mehefin 2018                       |
|----------------------------|------------------------------------|
| Uned 1                     | Uned 2                             |
| Uned 2                     | Uned 3                             |
|                            | Uned 4                             |
|                            |                                    |
| Dyfarniad UG wedi'i hawlio | Dyfarniad Safon Uwch wedi'i hawlio |

Mae'r tabl uchod yn dangos ymgeisydd sy'n cwblhau **hen gymhwyster TAG unedol pedair uned** dros ddwy gyfres arholiadau.

Mae'r ymgeisydd yn sefyll Uned 1 ac Uned 2 ym mis Mehefin 2017. Mae'r ymgeisydd yn hawlio dyfarniad UG ym mis Mehefin 2017.

Mae'r ymgeisydd yn ailsefyll Uned 2 yn ogystal â chofrestru ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 ym mis Mehefin 2018.

Mae'r ymgeisydd yn hawlio dyfarniad Safon Uwch ym mis Mehefin 2018.

Pan mae'r dyfarniad Safon Uwch yn cael ei hawlio ym mis Mehefin 2018, bydd yr ymgais orau ar bob uned yn cael ei ystyried, a bydd y dyfarniad yn cael eu ffurfio fel a ganlyn:

- Uned 1 – Mehefin 2017
- Uned 2 - y canlyniad gorau o'r ddau ymgais
- Uned 3 – Mehefin 2018
- Uned 4 – Mehefin 2018

Gallai'r ymgeisydd hawlio dyfarniad UG newydd ym mis Mehefin 2018, gan y bydd canlyniadau uned a gafwyd cyn yr ardystiad blaenorol ar gael i'w hailddefnyddio. Os yw'r ymgeisydd yn hawlio dyfarniad UG newydd ym mis Mehefin 2018, bydd yn cael ei ffurfio fel a ganlyn:

- Uned 1 – Mehefin 2017
- Uned 2 - y canlyniad gorau o'r ddau ymgais

Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon gyda'r dyfarniad Safon Uwch a hawliwyd ym mis Mehefin 2018, gallai ef/hi, yn amodol ar argaeledd y fanyleb ym mis Mehefin 2019, ailsefyll un neu fwy o'r unedau (**unedau UG a/neu U2**) a gwneud cais am ardystiad Safon Uwch eto.

#### 4. Cyfnewid dyfarniadau – yr opsiynau a'r camau gweithredu

Mae'r adran hon yn ystyried yr opsiynau a'r camau gweithredu sydd ar gael i ymgeisydd sydd naill ai'n dymuno gorffen ei gymhwyster **neu** sy'n bwriadu symud ymlaen gyda'r cymhwyster.

**Dylai canolfannau ofyn am arweiniad ar gyfleoedd asesu yn y dyfodol gan y corff dyfarnu perthnasol.**

##### (i) Opsiynau a chatau gweithredu ar gyfer yr ymgeisydd sy'n bwriadu gorffen y cymhwyster

**Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ymgeisydd sydd wedi cwblhau'r unedau ar gyfer cymhwyster TAG UG neu**

**Uwch ac nad oes ganddo/ganddi fwriad mynd ymlaen at ddyfarniad pellach.**

- Os yw'r ymgeisydd yn fodlon gyda'i radd (wedi gwneud cais i gyfnewid wrth gofrestru) nid oes angen cymryd camau pellach.
- Os na wnaethpwyd cais i gyfnewid wrth gofrestru, mae'n bosibl gwneud cais am hyn ar ôl cyhoeddi canlyniadau ac erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd ar gyfer dyfarniadau pwnc hwyr.
- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon gyda'i radd a'i fod yn dymuno ei wella, mae'n bosibl ailsefyll un neu fwy o'r unedau a gwneud cais am ardystiad eto mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol. **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol)** Lle mae uned yn cynnwys mwy nag un opsiwn, gallai'r ymgeisydd sefyll uned ddewisol newydd. Bydd y canlyniad gorau ar gyfer pob uned yn cyfrif tuag at y dyfarniad newydd.

##### (ii) Opsiynau a chatau gweithredu ar gyfer yr ymgeisydd sy'n bwriadu symud ymlaen gyda'r cymhwyster


**Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ymgeisydd sydd wedi cwblhau'r unedau ar gyfer cymhwyster TAG UG neu**

**Uwch ac sy'n dymuno symud ymlaen gyda'r cymhwyster.**


- Gall yr ymgeisydd symud ymlaen at gymhwyster pellach p'un a yw'r dyfarniad cyntaf wedi'i gyfnewid neu ei agregu ai peidio. Mae'n bosibl ailsefyll unedau unigol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol ac mae'n bosibl iddynt gyfrif tuag at y cymhwyster yn y dyfodol. **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol)**
- Os yw'r ymgeisydd yn fodlon gyda'i radd (wedi gwneud cais i gyfnewid wrth gofrestru) nid oes angen cymryd camau pellach.
- Os na wnaethpwyd cais i gyfnewid wrth gofrestru, mae'n bosibl gwneud cais am hyn ar ôl cyhoeddi canlyniadau ac erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd ar gyfer dyfarniadau pwnc hwyr.
- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon gyda'i radd a'i fod yn dymuno ei wella, mae'n bosibl ailsefyll un neu fwy o'r unedau a gwneud cais am ardystiad eto mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol. **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol)** Lle mae uned yn cynnwys mwy nag un opsiwn, gallai'r ymgeisydd sefyll uned ddewisol newydd. Bydd y canlyniad gorau ar gyfer pob uned yn cyfrif tuag at y dyfarniad newydd.

Mae ffigurau 2a a 2b ar **dudalen 7** yn crynhoi'r dull gweithredu sydd ar gael i ymgeisydd a wnaeth gais i gyfnewid wrth gofrestru ac i ymgeisydd na wnaeth gais i gyfnewid ar y cam hwnnw. Mae pob blwch yn cynrychioli cam o'r broses, ac mae pob saeth yn cynrychioli dewis y gellir ei wneud ar y cam hwnnw.

**Ffigur 2a** Opsiynau ar gyfer y rhai hynny sydd wedi gwneud cais am gyfnewid - dilynwch unrhyw lwybr



**Ffigur 2b** Opsiynau ar gyfer y rhai hynny nad ydynt wedi gwneud cais am gyfnewid - dilynwch unrhyw lwybr



† (Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.)

## 5. Cyfnewid neu beidio â chyfnewid?

Dylid penderfynu p'un a ddylid cyfnewid ai peidio yng ngoleuni gofynion ymgeisydd unigol. Mae goblygiadau i'r ddau ddull gweithredu, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

**Dylai canolfannau ofyn am arweiniad ar gyfleoedd asesu yn y dyfodol gan y corff dyfarnu perthnasol.**

### (i) Os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais i gyfnewid y cymhwyster

- Bydd ef/hi yn derbyn gradd a thystysgrif.
- Lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais am addysg uwch drwy system UCAS, bydd cyrff dyfarnu'n rhoi gwybod i UCAS am radd y cymhwyster a'r graddau uned cyfatebol sy'n cyfrannu at y radd, ac mae'n rhaid datgan gradd y cymhwyster ar ffurflenni UCAS.
- Mae'n bosibl ailsefyll unedau unigol o hyd ac mae'n bosibl iddynt gyfrif tuag at lefel nesaf y dyfarniad.  
**(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.)**
- Gallai'r ymgeisydd geisio gwella'r radd drwy ailsefyll un neu fwy o'r unedau (a gwneud cais i gyfnewid eto). **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.)**

### (i) Os nad yw'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster

- Ni fydd gradd na thystysgrif yn cael eu cyhoeddi.
- Gallai ef/hi ddewis beth i'w ddweud wrth UCAS - mae'n bosibl cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau uned yn natganiad personol y myfyriwr neu yn adroddiad y canolwr os y dymunir.
- Mae'n bosibl gwella canlyniadau uned unigol. **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.)**
- Mae canlyniadau'r uned yn aros yn y 'gronfa'. Mae hyn yn golygu y gallai ef/hi newid ei feddwl a chyfnewid ar ddyddiad diweddarach i hawlio'r radd y mae ganddo/ganddi hawl iddi. Mae'n rhaid gwneud hawliadau yn ystod y cyfnod a nodwyd yn dilyn cyfres arholiadau. Nid oes gofyniad i sefyll unrhyw unedau pellach.
- **Ni fydd** y cyfle olaf i ailsefyll ar gyfer yr hen fanyleb TAG UG a/neu Safon Uwch ar gael iddo/iddi. **Ni all** ymgeisydd fanteisio ar y cyfle olaf i ailsefyll ar gyfer y fanyleb TAG UG a/neu Safon Uwch unedol os nad yw ef/hi wedi cwblhau **ac wedi cyfnewid** y cymhwyster.

**D.S: Ar gyfer hen gymwysterau TAG UG unedol**, mae'r Adran Addysg (DfE) ar hyn o bryd yn disgwyl i'r holl ysgolion a cholegau a gynhelir (gan gynnwys academiâu ac ysgolion rhad ac am ddim) yn Lloegr i 'gyfnewid' neu agreu unedau UG ymgeiswyr ar ddiwedd cwrs blwyddyn UG (neu hanner ffordd drwy gwrs dwy flyned Safon Uwch).

## 6. Adolygu'r marcio, adolygu'r safoni a mynediad at sgriptiau

Os oes pryder am ganlyniad uned TAG UG neu U2 yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau, gall y ganolfan gyflwyno cais i adolygu'r marcio i'r corff dyfarnu perthnasol. Mae dyddiadau olaf derbyn ceisiadau, manylion llawn am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i wneud cais amdanynt, i'w gweld yng nghyhoeddiad y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau - Gwybodaeth a chanllawiau i ganolfannau* - <http://www.jcq.org.uk/exams-office/post-results-services> □

Mae'n **rhaidd** i ganolfannau gyflwyno ceisiadau i adolygu'r marcio neu i adolygu'r safoni o fewn y cyfnod ymholi yn union wedi cyhoeddi'r canlyniadau. **Nid yw'n bosibl gwneud ymholiad am uned a safwyd mewn cyfres flaenorol.** Mae ymholiad a wneir mewn perthynas â gradd gyffredinol cymhwyster yn gyfyngedig i wiriad clerigol, gan sicrhau fod marciau'r uned wedi eu hagregu'n gywir.

Gallai canolfannau hefyd gyflwyno ceisiadau i gyrff dyfarnu ddychwelyd sgriptiau arholiad i gefnogi dysgu ac addysgu, neu wneud cais am gopi blaenoriaeth o sgript cyn penderfynu p'un a ddylid ei gyflwyno i adolygu'r marcio.

Rhaid cyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau - Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau* - <http://www.jcq.org.uk/exams-office/post-results-services>

**7. Trefniadau ar gyfer myfyrwyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy gwrs TAG Safon Uwch (yn dilyn cwblhau a derbyn ardystiad ar gyfer dyfarniad TAG UG)**

**Hen gymwysterau TAG Safon Uwch unedol**

Efallai y bydd ymgeiswyr TAG UG sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall neu sydd, am resymau eraill, yn gorfod newid eu rhaglen astudio hanner ffordd drwy gwrs unedol TAG UG yn gymwys i drosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu. (**Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.**)

**Mae'n rhaid i'r manylebau gael yr un teitlau pwnc, o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheoleiddwyr a'r Cyd-gyngor Cymwysterau.**

Mae manylion llawn am y broses trosglwyddo credyd ar gyfer **hen gymwysterau TAG UG unedol** i'w gweld yn nogfen y CGC *Gwybodaeth i ganolfannau - Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy hen gwrs TAG Safon Uwch unedol (yn dilyn cwblhau a chael ardystiad dyfarniad TAG UG)* - <http://www.icq.org.uk/exams-office/entries/gce-entry-information-incltransfer-of-credit>

## Graddfeydd marciau unffurf

### CANLYNIADAU UNED TAG

*Y lleiafswm o farciau unffurff sy'n angenrheidiol ar gyfer gradd gyfatebol:*

| Gradd uned gyfatebol                | A   | B   | C   | D   | E   |
|-------------------------------------|-----|-----|-----|-----|-----|
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 60  | 48  | 42  | 36  | 30  | 24  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 78  | 62  | 55  | 47  | 39  | 31  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 80  | 64  | 56  | 48  | 40  | 32  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 90  | 72  | 63  | 54  | 45  | 36  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 100 | 80  | 70  | 60  | 50  | 40  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 105 | 84  | 74  | 63  | 53  | 42  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 110 | 88  | 77  | 66  | 55  | 44  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 111 | 89  | 78  | 67  | 56  | 44  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 120 | 96  | 84  | 72  | 60  | 48  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 140 | 112 | 98  | 84  | 70  | 56  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 300 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |

### GRADDAU CYMHWYSTER TAG

*Yr uchafswm o farciau unffurf ar gyfer y cymhwyster a'r lleiafswm o farciau unffurf angenrheidiol ar gyfer pob gradd:*

| Gradd y cymhwyster                  |      | A   | B   | C   | D   | E   |
|-------------------------------------|------|-----|-----|-----|-----|-----|
| TAG Uwch Gyfrannol (UG)             |      | 80  | 70  | 60  | 50  | 40  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 100 |      |     |     |     |     |     |
| TAG Uwch Gyfrannol (UG)             |      | 160 | 140 | 120 | 100 | 80  |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 200 |      |     |     |     |     |     |
| TAG Uwch Gyfrannol (UG)             |      | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 300 |      |     |     |     |     |     |
| Gradd y cymhwyster                  | A*   | A   | B   | C   | D   | E   |
| TAG Uwch (Safon Uwch)               | gwel |     |     |     |     |     |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 200 | er y | 160 | 140 | 120 | 100 | 80  |
|                                     | nody |     |     |     |     |     |
|                                     | n    |     |     |     |     |     |
| TAG Uwch (Safon Uwch)               | gwel |     |     |     |     |     |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 400 | er y | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 |
|                                     | nody |     |     |     |     |     |
|                                     | n    |     |     |     |     |     |
| TAG Uwch (Safon Uwch)               | gwel |     |     |     |     |     |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 600 | er y | 480 | 420 | 360 | 300 | 240 |
|                                     | nody |     |     |     |     |     |
|                                     | n    |     |     |     |     |     |

**Nodyn** Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A\* yw:

- gradd A yn gyffredinol ar Safon Uwch a
- 90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu unedau U2

Y rheol mewn Mathemateg yw:

- gradd A yn gyffredinol ar Safon Uwch a
- 90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu Unedau C3 a C4

Y rheol mewn Mathemateg Bellach yw:

- gradd A yn gyffredinol ar Safon Uwch a
- 90% o'r marc unffurf mwyaf wrth  
agregu tair uned orau U2

## CANLYNIADAU UNED TAG CYMHWYSOL

*Y lleiafswm o farciau unffurf sy'n angenrheidiol ar gyfer gradd gyfatebol:*

| Gradd uned gyfatebol                | A  | B  | C  | D  | E  |
|-------------------------------------|----|----|----|----|----|
| <b>Unedau â phwysoliad cyfartal</b> | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| Ile mae'r marc unffurf mwyaf yn 100 |    |    |    |    |    |

## GRADDAU CYMHWYSTER TAG CYMHWYSOL

*Y marc unffurf lleiaf ar gyfer y cymhwyster a'r marc unffurf lleiaf angenrheidiol ar gyfer pob gradd:*

|                                               |  |  |  |  |                                                                                                                                                 |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|-----------------------------------------------|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
| Gradd y cymhwyster                            |  |  |  |  | A                                                                                                                                               | B     | C   | D   | E   |     |     |     |     |     |     |
| Dyfarniad Unigol TAG Uwch Gyfrannol Cymhwysol |  |  |  |  | 240                                                                                                                                             | 210   | 180 | 150 | 120 |     |     |     |     |     |     |
| lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 300           |  |  |  |  |                                                                                                                                                 |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Gradd y cymhwyster                            |  |  |  |  | A*                                                                                                                                              | A     | B   | C   | D   | E   |     |     |     |     |     |
| Dyfarniad Unigol TAG Uwch Cymhwysol           |  |  |  |  | gwel                                                                                                                                            |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 600           |  |  |  |  | er y                                                                                                                                            | 480   | 420 | 360 | 300 | 240 |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | nodyn                                                                                                                                           |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Nodyn                                         |  |  |  |  | Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A* yw:                                                                                                     |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | <ul style="list-style-type: none"><li>gradd A yn gyffredinol ar Safon Uwch a</li><li>90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu unedau U2</li></ul> |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Gradd y cymhwyster                            |  |  |  |  | AA                                                                                                                                              | AB    | BB  | BC  | CC  | CD  | DD  | DE  | EE  |     |     |
| Uwch Gyfrannol                                |  |  |  |  |                                                                                                                                                 |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| TAG Cymhwysol Dwyradd                         |  |  |  |  | 480                                                                                                                                             | 450   | 420 | 390 | 360 | 330 | 300 | 270 | 240 |     |     |
| lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 600           |  |  |  |  |                                                                                                                                                 |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Gradd y cymhwyster                            |  |  |  |  | A*A                                                                                                                                             | AA    | AB  | BB  | BC  | CC  | CD  | DD  | DE  | EE  |     |
| Uwch gyda TAG Uwch                            |  |  |  |  | gwel                                                                                                                                            |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Gyfrannol Cymhwysol                           |  |  |  |  | er y                                                                                                                                            | 720   | 675 | 630 | 585 | 540 | 495 | 450 | 405 | 360 |     |
| (Ychwanegol)                                  |  |  |  |  | nodyn                                                                                                                                           |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 900           |  |  |  |  |                                                                                                                                                 |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Nodyn                                         |  |  |  |  | Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A*A yw:                                                                                                    |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | <ul style="list-style-type: none"><li>gradd AA yn gyffredinol a</li><li>90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu tair uned orau U2</li></ul>      |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Gradd y cymhwyster                            |  |  |  |  | A*A*                                                                                                                                            | A*A   | AA  | AB  | BB  | BC  | CC  | CD  | DD  | DE  | EE  |
| Dyfarniad dwyradd TAG                         |  |  |  |  | gwele                                                                                                                                           | gwel  |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Uwch Cymhwysol                                |  |  |  |  | r y                                                                                                                                             | er y  | 960 | 900 | 840 | 780 | 720 | 660 | 600 | 540 | 480 |
| lle mae'r marc unffurf mwyaf yn 1200          |  |  |  |  | nodyn                                                                                                                                           | nodyn |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
| Nodyn                                         |  |  |  |  | Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A*A yw:                                                                                                    |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | <ul style="list-style-type: none"><li>gradd AA yn gyffredinol a</li><li>90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu chwe uned orau U2</li></ul>      |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | Y rheol gyffredinol ar gyfer dyfarnu A*A yw:                                                                                                    |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |
|                                               |  |  |  |  | <ul style="list-style-type: none"><li>gradd AA yn gyffredinol a</li><li>90% o'r marc unffurf mwyaf wrth agregu tair uned orau U2</li></ul>      |       |     |     |     |     |     |     |     |     |     |

### Enghraifft o agregu ac ardystio TAG

Mae enghreifftiau o agregu ac ardystio TAG Mathemateg i'w weld yng nghyhoeddiad y CGC

*Rheolau Agregu TAG Mathemateg - Canllawiau i Ganolfannau -*

<http://www.jcq.org.uk/exams-office/entries/gce-maths-information>

#### Rheol

Bydd ymgeisydd sydd wedi hawlio dyfarniad cymhwyster yn y gorffennol yn gallu hawlio dyfarniad dilynol ar gyfer yr un pwnc, cyhyd â bod y cofrestriad yn cael ei wneud am un uned o leiaf sy'n cyfrannu tuag at y dyfarniad. **(Yn amodol ar argaeledd yr hen fanyleb TAG UG neu Safon Uwch unedol mewn cyfres arholiadau yn y dyfodol.)**

**Dylai canolfannau ofyn am arweiniad ar gyfleoedd asesu yn y dyfodol gan y corff dyfarnu perthnasol.**

#### Enghraifft 1

Mae cymhwyster TAG UG yn cynnwys Uned 1 a 2.

Ardystiodd Ymgeisydd M ar lefel UG ym mis Mehefin 2017. Mae'n ailsefyll Uned 2 ym mis Mehefin 2018. **Gallai hawlio dyfarniad UG newydd.**

#### Enghraifft 2

Mae cymhwyster TAG UG yn cynnwys Uned 1-3. Mae'r cymhwyster Safon Uwch cyfatebol yn cynnwys Uned 1-6.

Ardystiodd Ymgeisydd N ar lefel Safon Uwch ym mis Mehefin 2017. Mae'n ailsefyll Uned 3, 4 a 5 ym mis Mehefin 2018.

**Gallai hawlio dyfarniad UG newydd, yn ogystal â dyfarniad Safon Uwch newydd, ym mis Mehefin 2018 (oherwydd bod Uned 3 yn cyfrannu at y ddau ddyfarniad).** Pe byddai'r ymgeisydd wedi ailsefyll Unedau 4 a 5 ond nid Uned 3 ym mis Mehefin 2018, gallai fod wedi hawlio dyfarniad Safon Uwch newydd ond nid dyfarniad UG.

### Enghraifft 3

Mae cymhwyster TAG UG yn cynnwys Uned 1 a 2. Mae'r Safon Uwch cyfatebol yn cynnwys Unedau 3a neu 3b neu 3c, a 4a neu 4b neu 4c. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y gellir cyfuno Unedau 3 a 4.

Gall ymgeisydd ardystio lefel UG gydag Unedau 1 a 2.

Gallai ymgeisydd ardystio Safon Uwch gydag unrhyw un o'r cyfuniadau canlynol o unedau:

- 1, 2, 3a, 4a
- 1, 2, 3a, 4b
- 1, 2, 3a, 4c
- 1, 2, 3b, 4a
- 1, 2, 3b, 4b
- 1, 2, 3b, 4c
- 1, 2, 3c, 4a
- 1, 2, 3c, 4b
- 1, 2, 3c, 4c

**(Lle mae gan ymgeisydd ganlyniadau ar gyfer y ddau ddewis mewn uned, e.e. canlyniad ar gyfer Uned 3a yn ogystal â chanlyniad ar gyfer Uned 3b, bydd y canlyniad gorau yn cyfrif tuag at ardystiad.)**□

Ardystiodd Ymgeisydd O ar lefel UG ym mis Mehefin 2017 yn dilyn sefyll Unedau 1 a 2. Fe wnaeth hefyd sefyll Uned 3b ym mis Mehefin 2017. Yna mae'n sefyll Unedau 3a a 4a ym mis Mehefin 2018.

Mae'r canlyniadau o Uned 3a a 3b yn gymwys i gyfrif tuag at ardystiad ar lefel Safon Uwch.

**Ni ellir hawlio dyfarniad UG newydd gan nad oes unrhyw unedau UG wedi cael eu hailsefyll.**